# Arolygiad Practis Deintyddol Cyffredinol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

Bupa Dental Care, Dinbych /

Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

Dyddiad yr arolygiad: 10 Ebrill 2018

Dyddiad cyhoeddi: 11 Gorffennaf 2018

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Y Rheolwr Cyfathrebu**

**Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru**
**Llywodraeth Cymru**

**Parc Busnes Rhyd-y-car**

**Merthyr Tudful**

**CF48 1UZ**

Neu drwy

**Ffôn:** **0300 062 8163**

**E-bost:** **hiw@gov.wales**

**Ffacs:** **0300 062 8387**
**Gwefan:** **www.agic.org.uk**

ISBN Digidol 978-1-78937-587-9

© Hawlfraint y Goron 2018

# Cynnwys

1. Yr hyn a wnaethom ........ 5

2. Crynodeb o'n harolygiad ........ 6

3. Yr hyn a ganfuom ........ 8

Ansawdd profiad y claf ........ 9

Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol ........ 13

Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth ........ 19

4. Beth nesaf? ........ 21

5. Sut rydym yn arolygu practisau deintyddol ........ 22

Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad ........ 23

Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith ........ 24

Atodiad C – Cynllun gwella ........ 25

**Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw'r corff annibynnol sy'n arolygu ac yn rheoleiddio gofal iechyd yng Nghymru**

# Ein diben

**Gwneud yn siŵr bod pobl yng Nghymru yn derbyn gofal da.**

# Ein gwerthoedd

- **Canolbwyntio ar y claf: rydym yn rhoi cleifion, defnyddwyr gwasanaeth a phrofiad y cyhoedd wrth wraidd yr hyn yr ydym yn ei wneud**
- **Uniondeb: mae ein ffordd o weithredu yn agored ac yn onest**
- **Annibynnol: rydym yn gweithredu a gwneud penderfyniadau gwrthrychol yn seiliedig ar yr hyn a welwn**
- **Cydweithredol: rydym yn datblygu partneriaethau effeithiol yn fewnol ac yn allanol**
- **Proffesiynol: mae ein dull gweithredu yn effeithiol, effeithlon a chymesur.**

# Ein blaenoriaethau

**Ein nod trwy ein gwaith yw:**

| | |
|---|---|
| **Darparu sicrwydd:** | **Cynnig safbwynt annibynnol ar ansawdd y gofal.** |
| **Hybu gwelliant:** | **Annog gwelliant trwy adrodd a rhannu arfer da.** |
| **Dylanwadu ar bolisi a safonau:** | **Defnyddio'r hyn yr ydym yn ei ddarganfod i ddylanwadu ar bolisi, safonau ac arfer.** |

# 1. Yr hyn a wnaethom

Gwnaeth Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) gwblhau arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Bupa Dental Care yn Haulfryn, Dinbych, LL16 3LH, o fewn Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, ar 10 Ebrill 2018.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys arolygydd AGIC ac adolygydd cymheiriaid deintyddol.

Bu AGIC yn archwilio sut roedd y practis yn cydymffurfio â'r Safonau Iechyd a Gofal (2015), Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017, a deddfwriaeth a chanllawiau perthnasol eraill.

Ceir gwybodaeth bellach am sut rydym yn cynnal arolygiadau deintyddol yn Adran 5 ac ar ein gwefan.

# 2. Crynodeb o'n harolygiad

Ar y cyfan, gwelsom dystiolaeth fod Bupa Dental Care yn darparu gofal diogel ac effeithiol i'w gleifion mewn amgylchedd dymunol, gyda staff sy'n gyfeillgar, yn broffesiynol ac yn ymroddedig.

Canfuom fod arweinyddiaeth dda a llinellau atebolrwydd clir yn y practis.

Canfuom fod y gwasanaeth yn gwneud y canlynol yn dda:

- Rhoddid digon o wybodaeth i gleifion wneud penderfyniad gwybodus ynglŷn â'u triniaeth, a gwelsom dystiolaeth fod cleifion yn fodlon ar y driniaeth a'r gwasanaeth a dderbyniwyd
- Gwelsom dystiolaeth fod y gwasanaeth hwn yn cael ei reoli'n dda iawn, gyda systemau effeithiol i gefnogi rheolaeth ac arweinyddiaeth gyffredinol y practis
- Roedd y tîm staff i'w gweld yn hapus iawn yn eu swyddi, roeddent yn gymwys wrth gyflawni eu cyfrifoldebau, ac roedd ganddynt ymrwymiad cadarn i ddarparu gwasanaeth o ansawdd uchel
- Cofnodion clinigol rhagorol
- Roedd digon o gyfleusterau yn yr ystafelloedd triniaeth, ac roeddent yn daclus ac wedi'u trefnu'n dda
- Roedd offer deintyddol yn cael eu glanhau a'u sterileiddio’n briodol
- Roedd trefniadau priodol ar waith ar gyfer defnyddio pelydrau-X yn ddiogel
- Mae systemau ar waith ar gyfer llywodraethu a monitro ansawdd y gwasanaeth mewn perthynas â gofynion y rheoliadau

Gwnaethom argymell y gallai'r gwasanaeth wella’r canlynol:

- Dylid sicrhau bod yr holl staff yn y practis yn adnewyddu eu hyfforddiant o ran diogelu a bod yr holl staff yn cael eu hyfforddi i ddefnyddio diffoddwyr tân

- Dylid sicrhau bod unrhyw ddifrod i gyfleusterau'r ystafelloedd triniaeth yn cael ei drwsio
- Dylid hunanwerthuso trwy ddefnyddio dull y Matrics Aeddfedrwydd ar gyfer Deintyddiaeth

# 3. Yr hyn a ganfuom

## Cefndir y gwasanaeth

Mae Bupa Dental Care yn darparu gwasanaethau ar gyfer cleifion yn ardal Dinbych. Mae’r practis yn rhan o'r gwasanaethau deintyddol a ddarperir yn yr ardal sy'n cael ei gwasanaethu gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.

Mae gan y practis dîm o staff sy'n cynnwys tri deintydd, dau hylenydd, dwy nyrs ddeintyddol, dwy nyrs ddeintyddol o dan hyfforddiant, un derbynnydd ac un rheolwr practis.

Mae'r practis yn darparu ystod o wasanaethau deintyddol cyffredinol i gleifion y GIG a chleifion preifat.

## Ansawdd profiad y claf

*Gwnaethom siarad â chleifion, eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr (lle'r oedd hynny'n briodol) i sicrhau bod safbwynt y cleifion yn ganolog i'n dull o arolygu.*

Ar y cyfan, gwelsom dystiolaeth fod Bupa Dental Care yn darparu gofal diogel ac effeithiol i'w gleifion mewn amgylchedd dymunol, gyda staff sy'n gyfeillgar, yn broffesiynol ac yn ymroddedig.

Cadarnhaodd yr adborth a gawsom fod cleifion yn hapus iawn gyda'r gwasanaeth roeddent yn ei dderbyn.

Cyn yr arolygiad, gwahoddwyd y practis i ddosbarthu holiaduron AGIC i gleifion, er mwyn cael eu barn ar y gwasanaethau deintyddol a ddarperir. Gwnaethom dderbyn cyfanswm o 17 o holiaduron wedi'u cwblhau. Roedd y rhan fwyaf o'r holiaduron a gafodd eu cwblhau gan gleifion a oedd wedi bod gyda'r practis ers dros ddwy flynedd.

Ar y cyfan, roedd adborth cleifion yn gadarnhaol iawn. Roedd rhai o'r sylwadau gan gleifion yn yr holiaduron yn cynnwys:

> *"Mae'n dda iawn fel y mae. Nid oes gennyf unrhyw gwynion."*
>
> *"Mae'r deintydd yn ffantastig; fe yw'r gorau rwyf wedi'i gael erioed! Caiff popeth ei esbonio ac mae ei ymagwedd broffesiynol heb ei hail! Rwyf yn teimlo'n ymlaciedig iawn ac yn gadarnhaol am ymweld ag ef."*
>
> *"Rwyf wedi derbyn triniaeth dda a phrydlon bob amser."*

Gofynnwyd i'r cleifion yn yr holiaduron sut y gallai'r practis deintyddol wella'r gwasanaeth a ddarperir ganddo. Dywedodd y rhan fwyaf o gleifion wrthym fod y practis eisoes yn dda ac nad oedd angen ei wella.

### Cadw'n iach

Roedd digonedd o wybodaeth hybu iechyd deintyddol neilltuedig ar gael, a oedd yn golygu bod gan gleifion fynediad at wybodaeth a allai eu cynorthwyo i ofalu am eu hylendid ceg eu hunain. Roedd amryw bosteri a thaflenni gwybodaeth yn cael eu harddangos, a oedd yn rhoi amrywiaeth o wybodaeth i gleifion am y practis deintyddol a gwybodaeth am iechyd y geg. Roedd

arwyddion “dim ysmygu” yn cael eu harddangos yn y practis. Roedd rhestrau prisiau hefyd yn cael eu harddangos yn glir yn y man aros / derbynfa.

Nododd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur fod y tîm deintyddol wedi siarad â nhw ynghylch sut i gadw eu cegau a'u dannedd yn iach.

## Gofal ag urddas

Yn ddieithriad, roedd pob claf a gwblhaodd holiadur yn teimlo ei fod wedi cael ei drin â pharch wrth ymweld â'r practis.

Gwelsom hefyd y dull cynnes, cyfeillgar a phroffesiynol roedd yr holl staff yn ei ddefnyddio wrth ymdrin â chleifion.

Roedd gan y practis drefniadau i amddiffyn preifatrwydd cleifion, gan gynnwys mannau i gleifion gynnal sgyrsiau preifat â staff. Roedd galwadau ffôn hefyd yn cael eu derbyn yn breifat i ffwrdd o gleifion.

Gwelsom fod y drysau i'r ystafelloedd triniaeth ddeintyddol (lle'r oedd cleifion yn derbyn gofal ar ddiwrnod ein harolygiad) wedi'u cadw ar gau i gynnal preifatrwydd ac urddas.

### Gwybodaeth i gleifion

Dywedodd pob claf a gwblhaodd holiadur wrthym ei fod yn teimlo'n rhan o unrhyw benderfyniadau a wnaed ynghylch ei ofal deintyddol, i’r graddau yr oedd yn dymuno, a chadarnhaodd yr holl gleifion ac eithrio un eu bod wedi derbyn gwybodaeth glir am yr opsiynau triniaeth oedd ar gael.

Dywedodd y rhan fwyaf o gleifion a gwblhaodd holiadur fod cost unrhyw driniaeth yn cael ei hesbonio iddynt bob amser cyn iddynt dderbyn unrhyw driniaeth. Gwnaethom nodi bod gwybodaeth am brisiau ar gael i'w gweld yn y dderbynfa / man aros, a oedd yn golygu bod gan gleifion fynediad at wybodaeth am faint y gallai eu triniaeth ei chostio.

Canfuom hefyd dystiolaeth o gynllunio triniaethau ac opsiynau'n cael eu nodi o fewn sampl o gofnodion cleifion y gwnaethom edrych arnynt. Roedd hyn yn golygu bod cleifion yn gallu gwneud penderfyniad gwybodus ynghylch eu triniaeth.

Roedd gwybodaeth gyffredinol am y practis ar gael ar y wefan ac roedd yn cael ei harddangos o amgylch y dderbynfa a'r mannau aros. Roedd gan y practis ei lyfryn gwybodaeth ei hun i gleifion ei weld a'i ddarllen yn y man aros.

### Cyfathrebu'n effeithiol

Mae rhai o'r staff sy'n gweithio yn y practis yn gallu cyfathrebu'n ddwyieithog gyda'r cleifion.

Dywedodd yr holl gleifion ac eithrio un a oedd yn siarad Cymraeg ac a gwblhaodd holiadur wrthym fod modd iddynt siarad â staff yn y Gymraeg bob amser. Dywedodd yr holl gleifion a gwblhaodd holiadur ac nad oeddent yn siaradwyr Cymraeg wrthym fod modd iddynt siarad â staff yn eu hiaith o ddewis bob amser.

## Gofal amserol

Mae'r practis yn ceisio sicrhau bod gofal deintyddol yn cael ei ddarparu'n brydlon bob amser, a gwelsom hyn yn ystod ein harolygiad. Disgrifiodd y staff y broses ar gyfer hysbysu cleifion am unrhyw oedi i amser eu hapwyntiad.

Dywedodd oddeutu traean o'r cleifion a gwblhaodd holiadur na fyddent yn gwybod sut i gael mynediad i wasanaeth deintyddol y tu allan i oriau petai problem ddeintyddol frys ganddynt. Roedd rhif ffôn brys ar gyfer y gwasanaeth y tu allan i oriau ar gael pe byddai angen triniaeth ddeintyddol frys y tu allan i oriau ar gleifion. Roedd y rhif ffôn wedi'i arddangos ger y brif fynedfa ac wedi'i gynnwys ar neges y peiriant ateb ac ar wefan y practis.

## Gofal unigol

### Cynllunio gofal i hybu annibyniaeth

Gwnaethom archwilio sampl o gofnodion cleifion a chanfuom fod yr holl opsiynau triniaeth yn cael eu cofnodi a bod pob claf wedi rhoi cydsyniad i'w driniaeth.

Cadarnhaodd yr holl gleifion eu bod yn cael eu cynnwys (cymaint ag yr oeddent yn dymuno) mewn unrhyw benderfyniadau a wnaed am eu triniaeth. Gwelsom dystiolaeth o gynllunio triniaethau ac opsiynau'n cael eu trafod gyda’r cleifion.

Roedd hanes meddygol cleifion yn cael ei adolygu a’i ddiweddaru yn ystod pob ymweliad. Cadarnhaodd yr holl gleifion a gwblhaodd holiadur fod y deintydd yn holi am eu hanes meddygol cyn ymgymryd ag unrhyw driniaeth.

### Hawliau pobl

Gwnaethom sylwi bod polisi cydraddoldeb penodol ar waith yn y practis.

Mae'r practis yn gwbl hygyrch i gleifion ag anawsterau symudedd ac mae ganddo ei gyfleusterau parcio ei hun.

Gallai defnyddwyr cadeiriau olwyn gael mynediad i lefel llawr daear y practis a gallent gael mynediad i'r dderbynfa, y man aros, y toiledau a'r ddwy ystafell driniaeth.

### Gwrando a dysgu o adborth

Dywedodd dros hanner y cleifion a gwblhaodd holiadur wrthym y byddent yn gwybod sut i fynegi pryder neu gwyno am y gwasanaethau y maent yn eu derbyn yn y practis deintyddol. Gwelsom fod gan y practis weithdrefn gwyno ysgrifenedig ar waith ar gyfer triniaeth GIG a thriniaeth breifat. Roedd y weithdrefn ar gyfer cwyno neu fynegi pryder yn cael ei harddangos yn glir yn y ddau fan aros.

Dywedodd y practis wrthym fod unrhyw bryderon anffurfiol yn cael eu trin ar unwaith ac yn cael eu cofnodi yng nghofnodion unigol cleifion. Gwnaethom gynghori'r practis i gofnodi unrhyw bryderon anffurfiol mewn llyfr cofnodi canolog er mwyn nodi unrhyw themâu, a gwnaeth y practis weithredu ar hynny ar unwaith yn ystod ein hymweliad.

Gwnaeth cyfran fawr o'r cleifion a gwblhaodd holiadur ddweud na ofynnwyd iddynt am eu safbwyntiau am y practis deintyddol – er enghraifft, trwy holiaduron i gleifion.

Gwnaethom drafod dulliau'r practis o gasglu adborth gan y cleifion ac mae'r practis yn gwneud hynny drwy ddarparu holiaduron i gleifion yn y dderbynfa ynghyd â blwch sylwadau. Dywedodd y practis wrthym fod yr holiaduron wedi cael eu cyflwyno ym mis Chwefror 2018. Dywedodd y practis wrthym hefyd fod yr holiaduron yn cael eu rhoi i'r cleifion gan y deintydd ar ddiwedd eu triniaeth. Gall cleifion adael adborth drwy wefan y practis hefyd. Cyhoeddir dadansoddiad o'r adborth ar wefan y practis.

Gwnaethom gynghori’r practis i arddangos dadansoddiad o adborth gan gleifion yn y mannau aros i ddangos i'r cleifion sy'n ymweld â'r practis fod eu hadborth wedi cael ei gofnodi ac y gweithredwyd arno i wella dysgu a gwella'r gwasanaeth. Cytunodd y practis i wneud hyn.

## Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol

*Gwnaethom ystyried i ba raddau y mae gwasanaethau yn darparu gofal o ansawdd uchel, gofal diogel a gofal dibynadwy sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.*

Canfuom fod y practis yn cael ei redeg yn dda ac yn bodloni'r safonau perthnasol i sicrhau iechyd, diogelwch a llesiant y staff a'r cleifion.

Canfuom fod cleifion yn derbyn gofal deintyddol diogel ac effeithiol.

Canfuom fod nodiadau clinigol cleifion rhagorol yn cael eu cadw.

Fodd bynnag, gwnaethom ganfod bod angen gwneud rhai gwelliannau ym mhob un o'r ystafelloedd triniaeth.

### Gofal diogel

#### Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch

Ar y cyfan, canfuom fod trefniadau ar waith i amddiffyn diogelwch a llesiant staff sy'n gweithio yn y practis a'r bobl sy'n ymweld â'r practis.

Yn ôl pob golwg, roedd yr adeilad yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda iawn, y tu mewn a'r tu allan. Yn ystod taith o amgylch yr adeilad, gwelsom fod pob man yn lân ac yn daclus heb unrhyw beryglon amlwg.

Ni chodwyd unrhyw bryderon gan gleifion ynghylch glendid y practis deintyddol; roedd pob claf a gwblhaodd holiadur yn teimlo, yn ei farn ef, fod y practis deintyddol yn lân iawn.

Roedd un toiled deuryw ar gyfer y cleifion ac un toiled i ddynion a menywod ar gyfer y staff. Roedd arwyddion ar gyfer yr holl gyfleusterau ac roeddent i'w gweld yn lân iawn. Gwnaethom argymell y dylai'r practis sicrhau bod unrhyw finiau agored yn cael eu disodli gan finiau sy'n cael eu gweithredu â throed.

Gwelsom fod profion dyfeisiau cludadwy yn cael eu cynnal yn rheolaidd er mwyn sicrhau bod y dyfeisiau hyn yn ddiogel i'w defnyddio. Roedd diffoddwyr

tân wedi'u gosod trwy'r adeilad ac roeddent yn cael eu gwasanaethu'n rheolaidd. Roedd arwyddion ar gyfer yr allanfeydd brys wedi'u harddangos yn glir, ac roedd poster iechyd a diogelwch wedi’i arddangos yn glir. Fodd bynnag, gwnaethom nodi o'r dystysgrif diogelwch tân ddiwethaf fod angen i'r holl staff yn y practis gael eu hyfforddi ar sut i ddefnyddio'r diffoddwyr tân. Cawsom ein sicrhau ar lafar gan reolwr y practis fod y cynlluniau eisoes ar waith i'r holl staff yn y practis gael eu hyfforddi i ddefnyddio diffoddwyr tân.

Canfuom fod yr holl gemegion yn cael eu cadw'n ddiogel ac nid oedd yr un yn cael ei adael mewn man cyhoeddus. Roedd ffeil ar gael a oedd yn cynnwys nifer o ddalenni data yn ymwneud â’r Rheoliadau Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd (COSHH), ac roedd asesiadau risg perthnasol ar waith a oedd wedi cael eu hadolygu'n ddiweddar.

Roedd system ar waith yn y practis ar gyfer rheoli gwastraff yn briodol ac yn ddiogel. Roedd dogfennau contract ar waith ar gyfer cael gwared ar wastraff peryglus (clinigol) a gwastraff nad yw'n beryglus (domestig). Gwelsom fod yr holl wastraff wedi cael ei ddidoli i'r bagiau/cynwysyddion dynodedig yn unol â’r dull gwaredu cywir a’i fod yn cael ei storio’n ddiogel wrth aros i gael ei gasglu.

### Yr hyn y mae angen ei wella

Dylid sicrhau bod biniau a weithredir â throed yn cymryd lle pob bin agored.

Dylid sicrhau bod yr holl staff sy'n gweithio yn y practis wedi cael eu hyfforddi'n llawn i ddefnyddio diffoddwyr tân.

## Atal a rheoli heintiau

Roedd gan y practis gyfleusterau neilltuedig ar gyfer glanhau a sterileiddio (dadheintio) offer deintyddol, yn unol ag argymhellion Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05.[1] Roedd y cyfleuster yn lân iawn, yn drefnus, yn llawn offer ac yn daclus.

---

[1] Dadheintio mewn practisau deintyddol gofal sylfaenol a gwasanaethau deintyddol cymunedol

Dangosodd y staff y broses ddadheintio a chanfuom fod y gweithdrefnau ar waith ar gyfer glanhau, sterileiddio a storio offer yn unol â'r canllawiau arfer gorau diweddaraf. Fodd bynnag, nid oedd unrhyw ddogfennau ffurfiol ar gael i ddangos bod yr holl staff clinigol wedi derbyn hyfforddiant gloywi. Cawsom ein sicrhau ar lafar gan yr holl staff clinigol a rheolwr y practis fod hyfforddiant wedi'i gyflawni. Rydym yn argymell y dylai'r practis gyflwyno rhestr wirio ffurfiol ar gyfer hyfforddiant dadheintio, a ddylai gael ei chadw gyda chofnodion hyfforddiant unigol staff i ddangos bod hyfforddiant wedi'i gwblhau ac yn cael ei adolygu'n rheolaidd.

Gwelsom gofnodion a oedd yn dangos bod y practis wedi cynnal archwiliadau rheoli heintiau yn rheolaidd. Gwelsom dystiolaeth fod y practis wedi defnyddio Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05, sef y safon ar gyfer arferion dadheintio a rheoli heintiau i bractisau deintyddol yng Nghymru.

Roeddem yn fodlon fod gweithdrefnau priodol ar waith i sicrhau bod cyn lleied o berygl o groes-heintio â phosibl i ddiogelu cleifion a staff. Gwnaethom nodi hefyd fod yr offerynnau deintyddol yn cael eu storio a'u cludo yn unol â'r polisi dadheintio cyfredol.

Yr hyn y mae angen ei wella

Dylid cyflwyno rhestr wirio ffurfiol ar gyfer hyfforddiant dadheintio.

### Rheoli meddyginiaethau

Roedd gweithdrefnau ar waith yn y practis a oedd yn dangos sut i ymateb i argyfyngau meddygol cleifion. Roedd yr holl aelodau o staff clinigol wedi'u hyfforddi mewn dadebru cardio-pwlmonaidd a gwelsom dystiolaeth fod hyfforddiant adnewyddu wedi'i drefnu. Roedd gan y practis ddau swyddog cymorth cyntaf penodol.

Roedd y cyffuriau a ddefnyddir mewn argyfwng yn cael eu storio'n ddiogel ac mewn lleoliad a oedd yn sicrhau eu bod ar gael ar unwaith pe bai argyfwng meddygol (claf yn llewygu) yn y practis. Gwelsom dystiolaeth fod system effeithiol ar waith i wirio'r offer a’r cyffuriau brys i sicrhau eu bod yn parhau i fod o fewn eu dyddiad dod i ben a'u bod yn barod i'w defnyddio.

### Diogelu plant ac oedolion mewn perygl

Canfuwyd gennym fod gan y practis bolisi diogelu ar waith i amddiffyn plant ac oedolion agored i niwed.

Gwelsom dystiolaeth fod yr holl staff clinigol wedi cwblhau hyfforddiant ar amddiffyn plant ac oedolion agored i niwed. Fodd bynnag, mae angen i rai staff yn y practis ddiweddaru eu hyfforddiant. Cawsom ein sicrhau ar lafar gan reolwr y practis y byddai hyfforddiant gloywi yn cael ei drefnu.

Gwnaethom gadarnhau bod gan yr holl staff perthnasol wiriad dilys gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, a'u bod wedi'u cofrestru gyda'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol.

Yr hyn y mae angen ei wella

Dylid sicrhau bod y staff yn y practis yn diweddaru eu hyfforddiant ar amddiffyn plant ac oedolion agored i niwed.

## Dyfeisiau, offer a systemau diagnostig meddygol

Gwnaethom edrych ar y cyfleusterau clinigol yn yr ystafelloedd triniaeth a chanfuom eu bod yn cynnwys yr offer priodol ar gyfer diogelwch y cleifion. Roedd yr ystafelloedd triniaeth wedi'u trefnu'n dda ac yn daclus. Er hynny, gwnaethom nodi nifer o welliannau a oedd eu hangen.

Canfuom fod peth niwed i glustogwaith cadeiriau'r nyrsys ym mhob ystafell driniaeth, a oedd yn golygu nad oedd modd eu glanhau'n effeithiol. Canfuom hefyd ychydig o gyrydu a difrod i baent ar unedau'r cadeiriau deintyddol.

Canfuom hefyd fod rhai ardaloedd lle roedd llwch yn casglu yn Ystafell Driniaeth 2. Cawsom ein hysbysu gan reolwr y practis nad oedd Ystafell Driniaeth 2 wedi bod yn cael ei defnyddio. Cawsom ein sicrhau ar lafar y byddai'r ystafell driniaeth yn cael ei glanhau'n drwyadl cyn ei bod yn cael ei defnyddio i drin cleifion.

Canfuwyd gennym fod peth niwed wedi'i wneud i'r llawr yn Ystafell Driniaeth 3 gan uned y gadair ddeintyddol a chanfuom hefyd fod angen selio'r cwpwrdd cornel yn Ystafell Driniaeth 2 er mwyn ei lanhau'n effeithiol.

Roedd yr holl gyfarpar radiolegol yn cael ei gynnal ac yn gweithio'n dda. Gwelsom dystiolaeth fod trefniadau addas ar waith ar gyfer defnyddio offer radiograffig (pelydr-X) yn ddiogel. Gwelsom dystiolaeth o hyfforddiant cyfredol ar ymbelydredd ïoneiddio ar gyfer yr holl staff clinigol.

Gwelsom dystiolaeth fod y practis wedi cynnal asesiadau risg ac archwiliadau sicrhau ansawdd delweddau pelydr-X yn rheolaidd.

Yr hyn y mae angen ei wella

Dylid sicrhau bod cadeiriau'r nyrsys deintyddol yn cael eu trwsio neu eu hailglustogi ymhob ystafell driniaeth.

Dylid sicrhau bod y niwed a'r cyrydiad paent ar unedau'r cadeiriau deintyddol yn yr holl ystafelloedd triniaeth yn cael eu trwsio gyda phaent arbenigol.

Dylid sicrhau bod Ystafell Driniaeth 2 yn cael ei glanhau'n drwyadl cyn iddi gael ei defnyddio i drin cleifion.

Dylid sicrhau bod y llawr yn Ystafell Driniaeth 3 yn cael ei drwsio.

Dylid sicrhau bod y cwpwrdd cornel yn Ystafell Driniaeth 2 yn cael ei selio ar ei ymylon.

## Gofal effeithiol

### Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Roedd yn amlwg fod y practis yn ceisio gwella'n barhaus y gwasanaeth a ddarperir. Roeddem yn gallu gweld bod archwiliadau wedi cael eu cwblhau a/neu eu trefnu gan y practis, megis rhagnodi gwrthfiotigau, cofnodion clinigol, croes-heintio, pelydrau-X, clefyd y lleng filwyr a phecynnau argyfwng.

### Gwella ansawdd, ymchwil ac arloesi

Trwy drafod â staff, fe'n hysbyswyd bod adolygiadau gan gymheiriaid rhwng staff clinigol yn cael eu cynnal yn rheolaidd a'u bod yn cyfrannu at ansawdd a diogelwch y gofal a ddarperir i gleifion.

Gwnaeth y practis ein hysbysu nad yw wedi defnyddio dull y Matrics Aeddfedrwydd ar gyfer Deintyddiaeth Deoniaeth Cymru. Mae hwn yn ddull hunanwerthuso sy'n galluogi'r tîm deintyddol i ganolbwyntio ar sut mae'n gweithio, gan alluogi'r practis i ystyried yr ansawdd a'r gofal a ddarperir mewn amrywiaeth o feysydd.

Yr hyn y mae angen ei wella

Dylid hunanwerthuso trwy ddefnyddio dull y Matrics Aeddfedrwydd ar gyfer Deintyddiaeth.

### Llywodraethu gwybodaeth a thechnoleg cyfathrebu

Roedd polisi diogelu data ar waith. Roedd ffeiliau cleifion yn cael eu storio mewn modd priodol er mwyn sicrhau diogelwch data personol. Roedd copi wrth gefn o'r holl ffeiliau electronig yn cael ei wneud yn rheolaidd ac roedd mynediad at sgriniau cyfrifiadur yn ddiogel ac yn breifat.

### Cadw cofnodion

Roedd tystiolaeth fod y practis yn cadw cofnodion clinigol ardderchog, gan ddangos bod gofal yn cael ei gynllunio a'i ddarparu i sicrhau diogelwch a lles o safon uchel ar gyfer cleifion.

Gwnaethom archwilio sampl o gofnodion cleifion a chanfod bod nodiadau yn cynnwys gwybodaeth ddigonol o ran trafodaethau a gynhaliwyd am opsiynau triniaeth, costau, risgiau a manteision, a sut y cafwyd cydsyniad y claf. Roedd tystiolaeth hefyd o gynllunio triniaeth ac roedd cynlluniau triniaeth yn cael eu rhoi i'r holl gleifion. Roedd cyngor ar sgrinio am ganser a rhoi'r gorau i ysmygu hefyd wedi cael ei roi a'i gofnodi.

## Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

*Gwnaethom ystyried sut mae gwasanaethau'n cael eu rheoli a'u harwain ac a yw'r gweithle a'r diwylliant sefydliadol yn cefnogi darparu gofal diogel ac effeithiol. Gwnaethom hefyd ystyried sut mae gwasanaethau'n adolygu ac yn monitro eu perfformiad eu hunain ochr yn ochr â'r Safonau Iechyd a Gofal.*

Gwelsom fod gan y practis arweinyddiaeth dda a llinellau atebolrwydd clir.

Canfuom dystiolaeth fod y practis hwn yn un a oedd yn cael ei redeg yn dda iawn, gydag ymrwymiad cryf i ddarparu gwasanaeth o ansawdd uchel a rhoi sylw i fanylion.

Roedd amrediad o bolisïau a gweithdrefnau perthnasol ar waith.

Roedd y tîm staff i'w gweld yn hapus yn eu swyddi ac yn gymwys wrth gyflawni eu dyletswyddau a'u cyfrifoldebau.

### Llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd

Gwelsom fod arweinyddiaeth dda a llinellau atebolrwydd clir yn y practis.

Rheolwr y practis oedd yn gyfrifol am reoli'r practis o ddydd i ddydd, ac fe'i penodwyd ym mis Chwefror 2018. Dywedodd y staff wrthym eu bod yn hyderus wrth godi unrhyw faterion neu bryderon gyda rheolwr y practis, ac roeddent yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n dda yn eu rolau.

Gwelsom fod y staff yn bendant ac yn wybodus ynghylch eu swyddogaethau a'u cyfrifoldebau.

### Staff ac adnoddau

#### Gweithlu

Gwelsom ffolderi sefydlu staff wedi'u cwblhau ac roedd y rhain wedi'u trefnu'n dda. Roedd gan yr holl staff fynediad at bolisïau a gweithdrefnau.

Gwelsom hefyd fod gan staff fynediad at amrediad eang o hyfforddiant a bod hyn yn bodloni gofynion datblygiad proffesiynol parhaus. Gwelsom hefyd

dystiolaeth fod rheolwr y practis wedi rhoi cynlluniau ar waith ar gyfer arfarniadau staff blynyddol a chyfarfodydd tîm rheolaidd.

Gwelsom gofnodion yn ymwneud â statws imiwnedd hepatitis B yr holl staff sy'n gweithio yn y practis.

Gwnaethom edrych ar y polisïau a’r gweithdrefnau a oedd ar waith, a chanfuom eu bod yn adlewyrchu arfer gwirioneddol. Roedd yr holl bolisïau a gweithdrefnau yn cynnwys dyddiad adolygu a/neu roedd y fersiynau wedi'u rheoli ac yn cynnwys llofnodion staff, gan ddangos bod y rhain wedi cael eu darllen a'u deall.

Canfuom fod y practis yn arddangos ei fanylion cyswllt brys a’i oriau agor ar fynedfa'r adeilad.  Roedd enwau a chymwysterau'r deintyddion hefyd yn cael eu harddangos yn glir.

## 4. Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae gofyn i'r gwasanaeth weithredu yn eu cylch, mae'r rhain wedi'u manylu yn y ffyrdd canlynol o fewn atodiadau'r adroddiad hwn (lle bônt yn berthnasol):

- Atodiad A: Mae hwn yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon ynghylch diogelwch cleifion a uwchgyfeiriwyd ac a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Mae hwn yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn nodi bod angen i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella yn ein hysbysu o'r camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn
- Atodiad C: Mae hwn yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle'r ydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella gan ddweud wrthym am y camau mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn

Dylai'r cynlluniau gwella:

- Ddatgan yn eglur pryd a sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn derbyn sylw, gan gynnwys amserlenni
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion i roi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn derbyn sylw digonol

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth:

- Sicrhau nad yw canfyddiadau'n systemig ar draws mannau eraill o fewn y sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, i gadarnhau pan fydd y rhain wedi derbyn sylw

Pan gytunir ar y cynllun gwella, caiff ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

# 5. Sut rydym yn arolygu practisau deintyddol

Mae arolygiadau deintyddol fel arfer yn rhai lle rhoddir rhybudd. Mae practisau deintyddol yn derbyn o leiaf 12 wythnos o rybudd ymlaen llaw ynglŷn ag arolygiad. Mae hyn er mwyn rhoi trefniadau ar waith i sicrhau bod y practis yn rhedeg yn unol â'r arfer, a bod yr arolygiad yn amharu ar gleifion cyn lleied ag y bo modd.

Mae adborth yn cael ei ddarparu i gynrychiolwyr y practis ar ddiwedd yr arolygiad, mewn modd sy'n cefnogi dysgu, datblygiad a gwelliant ar lefelau gweithredol a strategol.

Rydym yn gwirio sut mae practisau deintyddol yn bodloni Safonau Iechyd a Gofal 2015 a, lle y bo deintyddiaeth breifat yn cael ei darparu, Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017. Lle bo hynny'n briodol, rydym yn ystyried sut mae'r practis yn bodloni'r rheoliadau hyn, yn ogystal â Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio 1999, Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000, ac unrhyw safonau a chanllawiau proffesiynol perthnasol eraill, megis Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer y Tîm Deintyddol.

Mae'r arolygiadau hyn yn rhoi cipolwg ar y safonau gofal o fewn practisau deintyddol.

Ceir gwybodaeth bellach am sut mae AGIC yn arolygu practisau deintyddol a'r GIG ar ein gwefan.

## Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a nodwyd ac a gafodd eu huwchgyfeirio yn ystod yr arolygiad. Oherwydd yr effaith (bosibl) ar ofal a thriniaeth cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith yn ystod yr arolygiad.

| Pryderon uniongyrchol a nodwyd | Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion | Sut y gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder | Sut cafodd y pryder ei ddatrys |
|---|---|---|---|
| Ni nodwyd unrhyw bryderon dybryd yn ystod yr arolygiad hwn. | | | |

## Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith

## Gwasanaeth: Bupa Dental Care, Dinbych

## Dyddiad yr arolygiad: 10 Ebrill 2018

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon dybryd ynghylch diogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle'r ydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu brys y mae'n eu cymryd.

| Yr hyn y mae angen ei wella ar unwaith | Safon | Camau gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| Ni nodwyd unrhyw faterion a oedd yn gofyn am sicrwydd ar unwaith yn ystod yr arolygiad hwn. | | | | |

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

### Cynrychiolydd y gwasanaeth:

### Enw (llythrennau bras):

### Swydd:

### Dyddiad:

## Atodiad C – Cynllun gwella

### Gwasanaeth: Bupa Dental Care, Dinbych

### Dyddiad yr arolygiad: 10 Ebrill 2018

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

| Yr hyn y mae angen ei wella | Safon | Camau gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| **Ansawdd profiad y claf** | | | | |
| Ddim yn berthnasol | | | | |
| **Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol** | | | | |
| Dylid sicrhau bod biniau a weithredir â throed yn cymryd lle pob bin agored. | 2.1 Rheoli risg a hyrwyddo iechyd a diogelwch | Cwblhawyd – gosodwyd biniau pedal newydd yn nhoiledau'r staff a'r cleifion. | Andrea Parker | |
| Dylid sicrhau bod yr holl staff sy'n gweithio yn y practis wedi cael eu hyfforddi'n llawn i ddefnyddio diffoddwyr tân. | | Cwblhawyd – cwblhawyd hyfforddiant diffoddwyr tân ar 22 Mai 2018. | Andrea Parker | |
| Dylid cyflwyno rhestr wirio ffurfiol ar gyfer hyfforddiant dadheintio. | 2.4 Atal a rheoli heintiau a | Cwblhawyd – rhestr wirio ffurfiol ar gyfer hyfforddiant dadheintio wedi'i chreu gan | Andrea Parker | |

| Yr hyn y mae angen ei wella | Safon | Camau gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| | dadheintio | y nyrs arwain. | | |
| Dylid sicrhau bod staff yn y practis yn diweddaru eu hyfforddiant ar amddiffyn plant ac oedolion agored i niwed. | 2.7 Diogelu plant ac oedolion mewn perygl | Cwblhawyd – mae'r holl staff wedi diweddaru eu hyfforddiant ar amddiffyn plant ac oedolion agored i niwed. | Andrea Parker | |
| Dylid sicrhau bod cadeiriau'r nyrsys deintyddol yn cael eu trwsio neu eu hailglustogi ymhob ystafell driniaeth. | 2.9 Dyfeisiau, offer a systemau diagnostig meddygol | Yn aros am ddyfynbris | Andrea Parker | 2 wythnos |
| Dylid sicrhau bod y niwed a'r cyrydiad paent ar unedau'r cadeiriau deintyddol yn yr holl ystafelloedd triniaeth yn cael eu trwsio gyda phaent arbenigol. | | Yn aros am ddyfynbris | Andrea Parker | 2 wythnos |
| Dylid sicrhau bod Ystafell Driniaeth 2 yn cael ei glanhau'n drwyadl cyn iddi gael ei defnyddio i drin cleifion. | | Cwblhawyd – mae Ystafell Driniaeth 2 wedi cael ei glanhau'n drylwyr. | Andrea Parker | |
| Dylid sicrhau bod y llawr yn Ystafell Driniaeth 3 yn cael ei drwsio. | | Yn aros am ddyfynbris | Andrea Parker | 2 wythnos |
| Dylid sicrhau bod y cwpwrdd cornel yn Ystafell Driniaeth 2 yn cael ei selio ar ei ymylon. | | Cwblhawyd – mae'r peiriannydd wedi bod i drwsio cornel y cwpwrdd ac mae wedi selio'r ymylon yn Ystafell Driniaeth | Andrea Parker | |

| Yr hyn y mae angen ei wella | Safon | Camau gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| | | 2. | | |
| Dylid hunanwerthuso trwy ddefnyddio dull y Matrics Aeddfedrwydd ar gyfer Deintyddiaeth. | 3.3 Gwella ansawdd, ymchwil ac arloesedd | Gwnaed ymholiadau am y Matrics Aeddfedrwydd ar gyfer Deintyddiaeth yn y practis, ond rhoddwyd gwybod bod y tiwtor wedi ymddeol, felly nid oedd modd trefnu cyfarfod practis. | Andrea Parker | |
| **Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth** | | | | |
| Ddim yn berthnasol | | | | |

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

## Cynrychiolydd y gwasanaeth

**Enw (llythrennau bras):** **Andrea Parker**

**Swydd:** **Rheolwr y Practis**

**Dyddiad:** **24 Mai 2018**